

Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru: Cynnig ar gyfer dull datblygu lleol dan arweiniad y gymuned

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, er mwyn i gymunedau a'r bobl leol allu datblygu eu hatebion eu hunain, a chael eu cynnwys yn effeithiol yn y broses o benderfynu sut mae buddsoddiadau'n cael eu targedu a sut mae asedau'r gymuned yn cael eu defnyddio yn eu hardal leol.


Mae datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn ffordd o gyflawni'r pedwar maes blaenoriaeth a themâu trawsbynciol, ac mae'n help i gyflawni nodau cenedlaethol a rhanbarthol o lefel y gymuned i fyny.

Bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar lefel Cymru gyfan. Bydd yn seiliedig ar leoedd, ac yn cael ei roi ar waith yn effeithiol mewn ardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol ac arfordirol. Bydd gofyn bod cyllid ar gael er mwyn helpu i feithrin capasiti, darparu cyllid sbarduno ar gyfer cynlluniau peilot, a chefnogi'r broses o gyflwyno prosiectau llwyddiannus.

Bydd y model yn y dyfodol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

Dull gweithredu lleol sy'n seiliedig ar ardal	Mae atebion yn cael eu haddasu mewn ffordd hyblyg er mwyn diwallu cyfleoedd ac anghenion amrywiol – ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.
Cyd-gynhyrchu a dulliau gweithredu mewn partneriaeth	Cydgryfrifoldeb a pherchnogaeth. Does dim un grŵp buddiant (e.e. sector cyhoeddus/sector preifat/trydydd sector) sy'n dominyddu. Mae'r bartneriaeth yn dod â gwybodaeth, egni ac adnoddau pobl leol at ei gilydd.
Strategaethau amlsectoraidd integredig	Mae camau gweithredu yn atgyfnerthu ei gilydd ac yn adeiladu ar gryfderau'r maes. Mae cysylltiadau'n cael eu gwella'n llorweddol â rhanddeiliaid eraill, ac yn fertigol â lefelau eraill mewn cadwyni cyflawni / cyflenwi.
Arloesi	Mewn cyd-destun lleol, mae'r dull yn arwain at ffyrdd newydd o feddwl ac o wneud pethau – marchnadoedd newydd, cynnyrch newydd, gwasanaethau, ffyrdd o weithio ac arloesi cymdeithasol.
Rhwydweithio a chydweithio	Mae cymunedau ac ardaloedd lleol yn rhwydweithio ac yn cydweithio, yn dysgu gan ei gilydd, yn rhannu arferion gorau ac yn dod o hyd i gynghreiriaid er mwyn cryfhau eu safle mewn cyd-destun byd-eang.

Bydd cymunedau yn gallu dweud beth yw eu hanghenion, ac adnabod cyfleoedd. Bydd cymunedau yn cael eu cynnwys fel rhan o ddull cylchol gydag eraill, fel rhan o strategaeth leol.



Mae swyddogaeth allgymorth a grymuso a ariennir, sy'n cael ei hwyluso gan bartneriaeth leol, yn hollbwysig er mwyn cydweithio â phobl leol, eu grymuso a'u galluogi i lunio atebion arloesol ar y cyd. Rhaid i bartneriaethau lleol sefydlu llwybrau datblygu ar gyfer cynlluniau llwyddiannus – mae hyn yn cynnwys rhannu cyfleoedd rhwydweithio, hyfforddi a dysgu â phartneriaethau eraill ar hyd a lled Cymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae prosiectau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn aml yn cymryd blynyddoedd i gyflawni eu nod, er enghraifft, creu swyddi. Rhaid i ddulliau monitro a gwerthuso ystyried y ffaith y bydd yn cymryd mwy o amser i sicrhau canlyniadau.